**Asesiadau opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Felinwnda**

| | Gwneud dim | Ffederaleiddio gyda Ysgol Bontnewydd | Cau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i dysgwyr yn Ysgol Bontnewydd | Cau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i dysgwyr yn Ysgol Llandwrog |
|---|---|---|---|---|
| **Statws yr ysgol** | Dim newid - Cymunedol | Dim newid - Cymunedol | Dim newid - Cymunedol | Ysgol Eglwysig |
| **Niferoedd dysgwyr** | Dim ond 8 dysgwr sydd yn Ysgol Felinwnda.<br><br>61 o lefydd gweigion (87%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. | Dim ond 8 dysgwr sydd yn Ysgol Felinwnda.<br><br>61 o lefydd gweigion (87%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. | Niferoedd yn iach gyda 204 yn mynychu Ysgol Bontnewydd (Ionawr 2023)<br><br>Mae lle ar gyfer y 3 dysgwr yn Ysgol Felinwnda sy'n byw yn y dalgylch.<br><br>Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nifer o ddysgwyr eraill | Niferoedd yn isel gyda 32 yn mynychu Ysgol Llandwrog (Ionawr 2023)<br><br>Mae lle ar gyfer y 3 dysgwr yn Ysgol Felinwnda sy'n byw yn y dalgylch. |
| **Maint dosbarthiadau** | Maint dosbarthiadau Ysgol Felinwnda yn parhau yn fach – 2 dosbarth o 3 a 5 (Ionawr 2023).<br><br>Amrediad oedran o 3 mlynedd yn y 2 ddosbarth. Dim plant meithrin, derbyn na blwyddyn 6. | Maint dosbarthiadau Ysgol Felinwnda yn parhau yn fach – 2 ddosbarth o 3 a 5 (Ionawr 2023).<br><br>Amrediad oedran o 3 mlynedd yn y 2 ddosbarth. Dim plant meithrin, derbyn na blwyddyn 6. | Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint hyfyw.<br><br>Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o blant o'r un oedran. | 2 ddosbarth gydag amrediad oedran o 4 mlynedd. |
| **Adnoddau ariannol** | Ysgol Felinwnda yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac | Ysgol Felinwnda yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac | Fe all arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod. | Fe all arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn derbyn dyraniad gwarchodaeth (£54,924 yn 2022-23) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, sef £14,643, sydd dros tair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. | yn derbyn dyraniad gwarchodaeth (£54,924 yn 2022-23) gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, sef £14,643, sydd dros tair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. | Tynnu ysgol o'r rhwyd diogelu staffio.<br><br>Bydd cost y pen dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol. | Tynnu ysgol o'r rhwyd diogelu staffio.<br><br>Bydd cost y pen dysgwr yn llai ond dal yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol gan fod Ysgol Llandwrog yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ei hun. |
| **Ffactorau daearyddol** | Dim newid | Dim newid | Bydd angen cynnig cludiant i'r 3 dysgwr yn Ysgol Felinwnda sy'n byw yn y dalgylch a gweddill plant y dalgylch yn unol â pholisi cludiant yr Adran Addysg | Bydd angen cynnig cludiant i'r 3 dysgwr yn Ysgol Felinwnda sy'n byw yn y dalgylch a gweddill plant y dalgylch yn unol â pholisi cludiant yr Adran Addysg |
| **Arweinyddiaeth a staffio** | Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. | Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. | Bydd angen diswyddo staff | Bydd angen diswyddo staff |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymunedol** | Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. | Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. | 31 o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd. | 5 o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Llandwrog. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim newid | Dim newid – mae y 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg | Dim newid – mae Ysgol Bontnewydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg | Dim newid – mae Ysgol Llandwrog yn ysgol cyfrwng Cymraeg |
| **Casgliad** | **Manteision**<br>• ni fydd angen trefnu cludiant ychwanegol ar gyfer unrhyw ddysgwr<br><br>**Anfanteision**<br>Ni fydd y cynnig yma yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol:<br>• niferoedd isel<br>• llefydd gweigion sylweddol<br>• dosbarthiadau bach gydag ystod oedran 3 mlynedd<br>• cost y pen sydd 3 gwaith mwy na'r cyfartaledd sirol<br>• mwyafrif plant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion eraill | **Manteision**<br>• ni fydd angen trefnu cludiant ychwanegol ar gyfer unrhyw ddysgwr<br><br>**Anfanteision**<br>Ni fydd y cynnig yma yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol:<br>• niferoedd isel<br>• llefydd gweigion sylweddol<br>• dosbarthiadau bach gydag ystod oedran 3 mlynedd<br>• cost y pen sydd 3 gwaith mwy na'r cyfartaledd sirol<br>• mwyafrif plant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion eraill | **Manteision**<br>• digon o le ar gyfer derbyn dysgwyr Ysgol Felinwnda<br>• mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nifer o ddysgwyr eraill<br>• dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint hyfyw<br>• dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o blant o'r un oedran.<br>• cost y pen yn agosach i'r cyfartaledd sirol.<br><br>**Anfanteision**<br>• bydd angen diswyddo staff<br>• mae'n debygol y bydd angen trefnu cludiant ar gyfer rhai o'r dysgwyr ar gost i'r Awdurdod | **Manteision**<br>• digon o le ar gyfer derbyn dysgwyr Ysgol Felinwnda<br>• cost y pen yn llai<br><br>**Anfanteision**<br>• mae niferoedd yn yr ysgol yn gymharol isel<br>• dosbarthiadau gydag amrediad oedran o 4 blynedd<br>• bydd angen diswyddo staff<br>• mae'n debygol y bydd angen trefnu cludiant ar gyfer rhai o'r dysgwyr ar gost i'r Awdurdod |